

Ffurflen Gais - Grantiau Mannau Cynnes

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam eisiau gwneud mwy i helpu'n cymunedau fynd i'r afael ag effaith costau byw.

Rydym ni'n gofyn i grwpiau a sefydliadau i'n cefnogi ni i ddarparu lleoliadau ar draws Wrecsam sydd yn agored, yn groesawgar i bawb, yn hygyrch, yn ddiogel ac am ddim i'n cymunedau i ddod i mewn a chynhesu. Rydym eisiau sicrhau fod unrhyw un sydd yn oer yn gwybod i ble y gallant fynd i fod yn gynnes, aros yn gynnes a mwynhau ychydig o gwmnïaeth.

Nod Grant Mannau Cynnes yw rhoi cefnogaeth ariannol i grwpiau a sefydliadau i agor eu lleoliadau fel mannau cynnes, yn ychwanegol i'w gweithgareddau arferol.

Mae grant o hyd at £1,000 fesul man cynnes ar gael. Gellir defnyddio hwn i leddfu ystod o gostau er enghraifft, costau ynni, costau gweithgareddau, deunyddiau sydd eu hangen, neu gostau rhedeg yn cynnwys costau staff neu wirfoddoli.

Dyfernir grantiau i sefydliadau nid-er-elw, sydd â mynediad i adeiladau eu hunain neu'n prydlesu adeilad ac yn gallu darparu man cynnes y gaeaf hwn.

Cyn dychwelyd y ffurflen

A wnewch chi dicio i gadarnhau:-

Eich bod wedi darllen a deall y nodiadau canllaw	
Eich bod wedi ystyried Siarter Mannau Cynnes i Wrecsam a sut y gallech sefydlu Mannau Cynnes.	
Fod gennych chi gyfrif banc	
Fod gan eich grŵp gyfansoddiad neu set o reolau llywodraethu (nid oes angen i chi fod yn elusen gofrestrdig).	
Gallwch ddarparu cyfrifon ar gyfer eich sefydliadau am y ddwy flynedd ddiwethaf, neu os ydych chi'n grŵp newydd, ers cyhyd â'ch bod wedi bod yn bodoli.	
Mae gennych bolisiâu addas a pherthnasol (megis diogelu neu yswiriant) i gynnal eich prosiect mannau cynnes. Bydd gofyn i chi ddarparu'r rhain os ydych chi'n llwyddiannus, ond nid oes angen i chi anfon y rhain yn rhan o'r cais hwn.	

Bydd eich prosiect yn cychwyn o fewn mis ar ôl derbyn y cyllid.

Os byddwch chi'n llwyddiannus, rydych chi'n fodlon cofrestru â Siarter Mannau Cynnes a chael eich cyhoeddi ar ein gwefan. Rydych chi hefyd yn fodlon cymryd rhan mewn gweithgareddau i hyrwyddo'r grantiau. Mae'n bosibl y gallai hyn gynnwys dyfyniadau neu luniau.

Byddwch yn llenwi ffurflen fonitro o fewn un mis ar ôl diwedd y prosiect.

Rydych chi'n deall y bydd y data personol sy'n cael ei gasglu at ddibenion prosesu a chynnal y rhaglen Grantiau a'ch bod yn rhoi caniatâd i ni ei ddefnyddio fel hyn. Mae manylion llawn ar gael ar ein hysbysiad preifatrwydd Grantiau.

Ydw, rwy'n cadarnhau'r uchod.

Gwybodaeth Gyffredinol

Teitl y Prosiect Mannau Cynnes

Enw'r Grŵp sydd yn Darparu'r Prosiect Mannau Cynnes

A ydi'r Grŵp sy'n darparu Mannau Cynnes yn berchen ar yr adeilad, neu'n gosod neu logi'r adeilad?

Lleoliad Mannau Cynnes (nodwch y cyfeiriad llawn os gwelwch yn dda)

Faint o arian yr hoffech chi wneud cais amdano?

Beth yw cyfanswm cost eich prosiect Mannau Cynnes?*

Eich prosiect

Beth fydd eich Mannau Cynnes yn ei ddarparu? (Nodwch fanylion pryd fydd eich lleoliad yn agor, pam fod y lleoliad yma'n bwysig, a beth fyddwch chi'n ei gynnig i'r gymuned sy'n ei ddefnyddio)

Pa ddyddiad sydd wedi'i gynnig ar gyfer cychwyn y prosiect?

Pryd fydd y prosiect yn gorffen?

Effaith eich Prosiect

Beth yw prif nod neu bwrpas eich Prosiect Mannau Cynnes?

Pwy fydd yn elwa o'r prosiect? *

Faint o bobl fydd yn elwa?*

Faint o amser staff neu wirfoddolwyr fydd y prosiect ei angen? (mewn oriau)

Sut fyddwch chi'n gwybod a yw'r prosiect wedi bod yn llwyddiannus?

Sut fydd eich prosiect yn cael ei gynnal, ar ôl y grant? (os yn berthnasol)

Ydych chi angen unrhyw wirfoddolwyr ychwanegol ar y prosiect?

Na
 Ydym

Os mai 'Ydym' yw eich ateb rhowch ragor o fanylion isod:

Cyllid

Rhowch ddadansoddiad manwl o sut y byddech yn gwario'r grant. Fe allai hyn gynnwys cyflogau, argraffu, cyhoeddusrwydd, hyfforddiant, lluniaeth, costau trydan ac ati.*

Oes gan eich prosiect unrhyw wariant cyfatebol sydd wedi'i addo? Os oes, rhowch fanylion isod.

Beth oedd cyfanswm incwm eich grŵp neu sefydliad y llynedd?

Oes gennych chi gyfrif banc?

Oes
 Na

Ydych chi'n elusen gofrestredig? (nid oes ots os nad ydych chi)

Ydym
 Na

Cadw mewn cysylltiad

Rydym ni'n gofyn am y wybodaeth bersonol yma er mwyn i ni gadw mewn cysylltiad â chi. Fe fyddwn ni'n storio a chael gwared ar y data yma'n briodol.

Ni fyddwn ni'n rhannu'r manylion cyswllt personol yma gydag unrhyw un heb eich caniatâd. Serch hynny, bydd manylion eich cais am grant yn cael ei drafod gyda chydweithwyr yn y Cyngor a sefydliadau eraill (heb rannu eich manylion cyswllt personol).

Mae copi o'r Hysbysiad Preifatrwydd ar gael ar dudalen gwe Grantiau y Cyngor.

Eich enw cyntaf

Eich cyfenw

Cyfeiriad eich grŵp neu sefydliad

Eich rhif ffôn

Eich rôl yn y grŵp

Eich cyfeiriad e-bost (byddwn yn anfon e-bost yn cadarnhau ein bod wedi derbyn y ffurflen hon i'r cyfeiriad e-bost yma)

Ydi eich grŵp neu sefydliad ar unrhyw lwyfannau cyfryngau cymdeithasol? Nodwch fanylion (e.e. dolen i dudalen Twitter, neu nodwch 'na' os nad oes gennych chi).

A oes gan eich sefydliad wefan? Nodwch gyfeiriad y wefan (URL) isod os oes gennych chi un (nodwch 'na' os nad oes gennych chi un)

Cyn i chi fynd...

Sut wnaethoch chi glywed am y rhaglen grantiau? Ticiwch bob un sy'n berthnasol

Gwefan Cyngor Wreccsam	
Twitter	
Facebook	
Y wasg	
Rhywun yn sôn	
Safle chwilota (e.e. Google)	
Arall:-	

Faint o amser a gymerodd i chi lenwi'r ffurflen?

Sut fydddech chi'n sgorio ein proses grantiau hyd yn hyn?

Gwael 1 2 3 4 5 Ardderchog

Oes gennych chi wybodaeth neu sylwadau eraill?

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Byddwn yn anfon e-bost i gydnabod ein bod wedi cael eich ffurflen gais.

Gan mai rhaglen dreigl yw hwn, fe fyddwn ni'n ystyried y ceisiadau wrth iddynt gael eu cyflwyno ac fe wneir penderfyniad ar eich cais o fewn pythefnos ar ôl i chi ei gyflwyno. Fe gysylltir ag ymgeiswyr llwyddiannus cyn gynted ag y gwenir penderfyniad a byddant yn gweithio gyda swyddogion grantiau i gychwyn sefydlu'r Mannau Cynnes.

Fe fyddwn ni'n trafod gyda phartneriaid mewnol ac allanol yn ystod y broses hon.

E-bostiwch warmplaces@wrexham.gov.uk os bydd unrhyw broblemau